

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 15fed Rhagfyr 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, K. R. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

79. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Miss S. L. Roberts, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

80. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 69-78

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 33-35

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 1af Rhagfyr 2021 - Rhifau Cofnod 36-38

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Rhagfyr 2021 - Rhifau Cofnod 59-68

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

81. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer ar y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf ac yn benodol y Christmas Pops yn Theatr y Pafiliwn.

Dyweddod y Maer ei bod yn noson wych gydag £851 wedi ei godi at elusen plant lleol.

Ychwanegodd yr Aelodau bod y Cynghorwyr W. M. Mullen-James ac A. R. James wedi gweithio'n galed yn gwerthu tocynnau raffl a hyd yn oed gyda nifer is yn mynychu er mwyn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol, roedd y swm a godwyd yn hynod a'r cyfan diolch i haelioni trigolion y Rhyl.

Teimlai Aelod efallai bod angen ychydig mwy o waith hyrwyddo ar y digwyddiad, gan nad oedd nifer o'i drigolion yn ymwybodol ohono.

82. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodlen V er cymeradwyaeth (24ain Tachwedd – 7fed Rhagfyr 2021)

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1285	Collisons Ltd	238.94	Cardiau Nadolig y Maer
1290	Design to Print Ltd	457.00	Rhifyn Rhodio'r Rhyl mis Hydref – argraffu (derbyniwyd yr anfoneb yn hwyr)
1291	Delwedd Ltd	12.96	Cynyddu blwch post 'ymholiadau'
1292	Fool's Paradise	1,292.40	Corachod ar gyfer digwyddiad Bouncing Into Christmas ar 11/12/21
1293	Gunsmoke Communications	11.76	Melysion ar gyfer Bouncing into Christmas ar 11/12/21
1294	Y Cyngh D. L. King	134.89	Treuliau'r Maer Tachwedd 2021
1295	Design to Print Ltd	377.00	Copiau ychwanegol Rhodio'r Rhyl
1296	Y Cyngh D. L. King	173.00	Treuliau'r Maer mis Hydref 2021
	Cyfanswm taliadau	£2,697.95	

Taliadau Brys a Cherdyn: Gwnaed un taliad brys yn y cyfnod – Taleb rhif 1285 ar gyfer Collisons. Ni wnaed unrhyw daliadau gyda cherdyn credyd y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

83. CRIBIN TRAETH ARFAETHEDIG: CYNGOR SIR DDINBYCH

Ymhellach i gofnod rhif 72 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Tachwedd 2021, cyfeiriodd Clerc y Dref at ebost gan Mr Andy Clark (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cadarnhau bod Ardal Gwella Busnes y Rhyl (BID) yn cefnogi prynu'r cribin 'mewn egwyddor' yn amodol ar unrhyw newidiadau a allai godi.

Roedd mwyafrif yr aelodau yn falch o weld cefnogaeth BID a dweud eu bod yn awyddus i fynd ymlaen gyda chefnogaeth 'mewn egwyddor' y Cyngor Tref i gyflymu'r broses o brynu a chael y cribin yn gweithio cyn gynted ag y bo modd.

PENDERFYNWYD o roddi'r mater i bleidlais (gyda thri yn ymatal) bod yr aelodau yn cyfarwyddo Clerc y Dref i siarad gyda Mr Andy Clark i gynnig cefnogaeth 'mewn egwyddor' y Cyngor Tref ac yn agored i drafodaethau bod cyfraniad ariannol y Cyngor Tref yn cael ei dalu dros nifer o randaliadau, gyda phenderfyniad terfynol yn cael ei gymryd yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor.

84. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL – CYNGOR SIR DDINBYCH – BWRDD DATBLYGU CYMUNEDOL Y RHYL

Cyfeiriodd y Maer at yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i ystyried penodi cynrychiolydd i'r Bwrdd.

PENDERFYNWYD penodi'r Maer, y Cynghorydd Mrs D. L. King, i'r Bwrdd. Penodiad a fyddai'n para tan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2022, ynghyd â phob cynrychiolaeth arall ar gyrff allanol.

85. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

86. DIFROD STORM

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw beth newydd i'w ychwanegu i'w adroddiad llafar blaenorol a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 1af Rhagfyr 2021, ond byddai'n cadw'r mater fel eitem sefydlog ar raglenni yn y dyfodol.

87. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS – ADRODDIAD

Yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor Tref, cyfeiriodd y Maer at adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r enwebiad a gyflwynwyd gan aelod i'r cyngor ei ystyried.

PENDERFYNWYD o roddi'r mater i bleidlais, bod cefnogaeth unfrydol i'r enwebiad a chyfarwyddo Clerc y Dref i ysgrifennu at yr unigolyn i'w hysbysu a gofyn os buasant yn derbyn y dyfarniad.

88. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd - 26ain Hydref 2021 - Rhifau Cofnod 22-29

Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - 8fed Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 14-19

Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd - 30ain Tachwedd - Rhifau Cofnod 30-37

Tynodd Clerc y Dref sylw'r aelodau at:

- i) gais gan yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd (cofnod rhif 25 yn cyfeirio) am gynnydd yng nghyllideb y Gerddi Coffa o £8,000 i £9,000 i helpu i gadw i fyny gyda'r gwaith cynnal newydd, gwell.
- ii) argymhelliad y Pwyllgor CSG (rhif cofnod 23 yn cyfeirio) i dderbyn tendr gan Gunsmoke Communications ar gyfer y contract Digwyddiadau Bach a Chyhoedduswydd 2022/23 – 2023/24 (gyda'r opsiwn i ymestyn am 12 mis arall).

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion ynddynt.

89. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1af Rhagfyr 2021, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo yn ffurfiol argymhellion y gyllideb a'r cynllun ariannol pum mlynedd (a ddosbrthwyd gyda'r rhaglen); codi praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, cymeradwyodd yr aelodau nhw a'r braesept a argymhellwyd o £552,383. Byddai hyn yn cynrychioli gostyngiad bach o 0.22% ar braesept 2021/22 (oherwydd y gostyngiad yn nifer yr eiddo yn y Rhyl) yn gofyn am daliad o £57.66 ar gyfer eiddo Band D (yn cynrychioli cynnydd o 0% i daliad 2021/22).

PENDERFYNWYD bod y Cyngor:

- (i) yn cymeradwyo a chodi praesept o £552,383 (Pum cant a phum deg dau o filoedd, tri chant ac wyth deg tri o bunnau) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cychwyn 1af Ebrill 2022, a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych o hynny.
- (ii) yn cymeradwyo'r Cynllun Adferiad Cronfeydd Wrth Gefn Pum Mlynedd, sydd nawr wedi ei gyflawni.

(iii) yn diolch i'r swyddogion a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol am eu gwaith yn cyflawni'r cynllun adfer a chyllideb 2022/23.

90. EGWYL Y NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau i'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r cadeiryddion priodol yn ystod y cyfnod o 16eg Rhagfyr 2021 hyd at 19eg Ionawr 2022, fel a ganlyn:

Materion Dinesig - Maer a/neu Dirprwy Faer

Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG

Holl faterion eraill - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

PENDERFYNWYD cadarnhau'r trefniadau.

91. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad: